# PAHAM MAE Y LLUAWS YN DLAWD?

YR ydym yn byw mewn cymdeithas sydd yn llawn cystadleuaeth, a'r Cyfalaf yn nwylaw ychydig bersonau. Beth yw y canlyniadau? Fod ychydig yn gyfoethog iawn, rhai mewn amgylchiadau cysurus, y MWYAFRIF MEWN TLODI, a llu mawr mewn trueni.

A yw hyn yn drefn gyfiawn a doeth, deilwng o ddynoliaeth? A yw yn ein gallu ni i wella y drefn hon ai nid yw?

Mae y drefn hon hyd yma wedi ei gadael heb ei chondemnio yn unig am ein bod ni mor barod i dderbyn unrhyw drefn ddigwyddo fod yn sefydledig, ac oblegid yr anwybodaeth sydd yn ffynu yn gystal am y drygau a achosir yn anocheladwy gan ein hanrhefn yn ngwahanol gylchoedd llafur, ac am ein gallu ni i'w cadw draw.

Nid yw y drefn gystadleuol, yr hon sydd yn gosod y naill i gydymgais a'r llall, ac yn galluogi yr ychydig i gymeryd meddiant o'r cyfoeth sydd yn perthyn i gymdeithas yn gyffredinol, ond dyfais sydd yn cadw i fynu lawer o ddrygau yr oesoedd penrydd wedi ychwanegu atynt bla o ystrywiau masnachol mor isel a dirmygus fel nad oes genym iaith ddigon cref i'w condemnio.

Beth ellir ddyweud yn ffafr cyfundrefn sydd yn cynyrchu y coegyn segur ac yn gadael iddo fyw heb wneud un ergyd o waith buddiol, y gweithiwr sydd fel caeth-was yn llafurio am yr hyn nad yw ond gwawd ar fywyd dynol, y tlawd truenus a'r troseddwr sydd yn erbyn pawb, ie, o blaid cyfundrefn sydd yn cadw i fynu frwydr driphlyg o anonestrwydd yn barhaus rhwng y cynyrchydd, y masnachydd a'r hwn sydd yn defnyddio y cynyrch.

Beth yw Cyfalaf?

Cyfalaf yw cyfanswm y cyfryngau sydd genym i gynyrchu, a'r manteision a ddeilliant o'r gwaith a wnaed yr amser a aeth heibio. Mae yn cael ei *iawn*ddefnyddio pan yn cael ei roddi i lesoli pawb, yn cael ei *gam*ddef-

yddio pan adewir ef yn nwylaw yr ychydig i wastraffu ei gynyrch ar eu pleserau personol eu hunain. Mae y drefn bresonol yn galluogi yr ychydig i gymeryd oddiar y gweithwyr ran fawr o gynyrch eu llafur,—y llafur hwnw, yr hwn yn unig a wna i'r cyfalaf a adawyd gan genhedlaethau o ddiwydrwydd cymdeithasol, ddwyn ffrwyth.

Beth mae y lluaws yn gael oddiwrtho?

Tlodi yw eu rhan hwy. Dyma ganlyniad anocheladwy eu cydymgais am gyflogau, ac nid oes neb yn gwybod gystal a'r gweithwyr eu hunain beth yw pwysau y llygredigaeth ofnadwy a hirbarhaol a achosir, nid yn unig gan dlodi un genhedlaeth, eithr gan genhedlaethau o dlodi. Disgwylir i'r tlodion gyda'r cyfleusderau lleiaf ddangos y rhinweddau mwyaf. Rhaid iddynt ar gyflogau bychain ac ansicr, fel meibion a merched, ymdrechu dal i fynu eu hanibyniaeth, eu hunanbarch a'u henw da, a gosod ychydig o'r neilldu ar gyfer diwrnod gwlawog, yr hwn sydd yn sicr o'u dal.

Cymered y dyryswch lleiaf le yn marchnad llafur a cheir gweled y naill weithiwr yn gweithio dan y llall. Gweithia y dyn tlawd am gyflog bychan ond gweithia un tlotach am gyflog o lai, a thyn y cydymgais hwn am waith y cyflogau uchaf mewn rhai galwedigaethau a'r cyflogau isaf yn mhob galwedigaeth, i lawr mor isel na fyddont ond prin ddigon i gadw dyn rhag newyn, a phe cymerai y dyryswch lleiaf le ar eu gwaith neu eu hiechyd nid oes ond y plwyf yn eu haros.

Dyna dynged pob gweithiwr bron, tra y bydd gwr y cyfalaf yn ymneillduo gyda chynysgaeth ar yr hyn y bydd efe, ei blant a'i wyrion, yn gallu byw heb wneud dim. Wele un engraifft o lawer. Mae mab i berchenog gwaith haiarn heddyw yn eistedd yn Nhy yr Arglwyddi mae ganddo dy ardderchog yn y dref a dau neu dri phalas yn y wlad; dygir ei blant i fynu mewn mwyniant a moethau, ond pa le y mae plant y bobl fu yn gwneud ei gyfoeth? Maent hwy yn gweithio o fore hyd hwyr am ddim ond prin ddigon i'w cynal fel yr oedd eu tadau o'u blaen.

Mae llafur dibaid y gweithwyr yn gwneud y rhai sydd

eisoes yn gyfoethog yn gyfoethocach, hyd nes y galluoga cyfoeth mawr y nifer fechan uchelfreiniog i fyw mewn moethau diofal, heb wybod dim am yr ymdrechfa am fy violaeth sydd yn myned yn mlaen yn mhlith y bobl islaw iddynt.

A i nid oes hawl gan weithwyr i ddim ar y ddaear ond gweithio pryd a lle y gwelo gwr y cyfalaf yn dda, ac ar y telerau a benderfynir gan gydymgais? Os mai cyd-ymgais yw safon briodol cyflog paham na chymerid ef yn safon yn mhob achos? Yn ol y safon hon, beth er engraifft, fyddai cyflog Duc, Esgob, neu un o weision Llys y Frenhines.

A yw trefnidwyr, gwleidyddwyr, a chymdeithaswyr yn sefyll yn anobeithiol uwchben anhawsderau Tlodi? A raid i'r gweithwyr aros mewn tlodi tra fyddo'r Seneddwyr a'r doethion yn hollti blew ac yn hidlo gwybed?

Na, nid felly! rhaid i'r gweithwyr roddi i fynu ymddiried yn ddall mewn Cydymgais yr hwn yw duw Masnach, a hyny hefyd a wnant, a dyfod i deimlo eu cyfrifoldeb am y galluoedd sydd ganddynt, ond eto heb wneud defnydd ohonynt.

Pe defnyddid Cyfalaf at wasanaeth Cymdeithas derbyniai Llafur gyflawn fudd oddiwrtho, ond tra y gadewir Cyfalaf yn nwylaw yr ychydig, Tlodi o angenrheidrwydd fydd rhan y lluaws.

Gellwch chwi addysgu, pregethu a gweddio yn eich ysgolion a'ch addoldai hyd ddiwedd amser, ond ni ateba un dyben hyd nes yr ysgubir ymaith yr eilun dall Cydymgais, y camddefnydd hwn a wneir o Gyfalaf yn nwylaw personau unigol.

Chwi y rhai ydych yn byw yn ddedwydd a moethus, cofiwch fod eich mwyniant a'ch moethau wedi eu pwrcasu gan angen a thrueni eraill. Eich gormodedd chwi achosodd eu tlodi hwy. Gobeithio na ddifodwyd eich dynoliaeth gan y cyfoeth a adawodd eich tadau i chwi.

Deuwch allan o'ch gormodedd a'ch esmwythdra a chynorthwywch ni!

Chwithau hefyd y rhai ydych yn dyoddef, meddyliwch am hyn, a chynorthwywch ni i hyrwyddo yr unig feddyginiaeth rhag y drygau hyn. Mae'r amser yn agoshau pan ellir gwneud Cyfalaf yn eiddo cymdeithas, nid i fod mwyach o dan reolaeth yr ychydig, eithr yn feddiant cyhoeddus er budd pob dyn. Mae yn eich gallu i gynorthwyo i wneud hyn, heboch chwi nis gellir ei wneud. Mae y gallu yn eich dwylaw a chyfleusderau i ddefnyddio y gallu hwnw yn barhaus o fewn eich cyrhaedd, os esgeuluswch y cyfleustra, bydd raid i chwi a'ch plant aros yn ebyrth i Gydymgais a Chyfalaf—Ymdrechu byth—Tlodion byth.

FABIAN SOCIETY.—The Fabian Society consists of Socialists. A statement of its Rules, etc., and the following publications can be obtained from the Secretary, at the Fabian Office, 276 Strand, London, W.C.

## FABIAN ESSAYS IN SOCIALISM.

(35th Thousand.)

Library Edition, 6/-; *or, direct from the Secretary for Cash,* 4/6 *(postage,* 4½*d.).* Cheap Edition, Paper cover, 1/-; plain cloth, 2/-. At all booksellers, or post free from the Secretary for 1/- and 2/- respectively.

## FABIAN TRACTS.

63.—Parish Council Cottages, and how to get them. 4 pp., 6 for 1d. 1/- 100.
62.—Parish and District Councils: What they are and what they can do. 1d. each; or 9d. per doz.
61.—The London County Council: What it is and what it does. 1d.; 9d. doz.
60.—The London Vestries. Including a complete statement of the changes made in London by the Local Government Act, 1894. 1d.; 9d. doz.
58.—Allotments and How to Get Them. 4 pp., 6 for 1d.; or 1/- per 100.
55.—The Workers' School Board Program. 20 pp., 1d.; or 9d. per doz.
54.—The Humanizing of the Poor Law. By J. F. Oakeshott. 24 pp., 1d.
52.—State Education at Home and Abroad. By J. W. Martin. 16 pp., 1d.
51.—Socialism: True and False. By Sidney Webb. 20 pp., 1d. ea.; 9d. doz.
50.—Sweating: its Cause and Remedy. 16 pp., 1d. each; or 9d. per doz.
49.—A Plan of Campaign for Labor. A detailed scheme for Independent Labor Representation. 36 pp., 2d. 1/6 per doz.
48.—Eight Hours by Law. 16 pp., 1d. each; or 9d. per doz.
47.—The Unemployed. By John Burns, M.P. 20 pp., 1d. each; or 9d. per doz.
46.—Socialism and Sailors. By B. T. Hall. 16 pp., " " "
45.—The Impossibilities of Anarchism. By G. B. Shaw. 28 pp., 2d.; 1/6 per doz.
44.—A Plea for Poor Law Reform. (Revised 1894). 4 pp., 6 for 1d.; or 1/- 100.
42.—Christian Socialism. By the Rev. S. D. Headlam. 16 pp., 1d. 9d. per doz.
41.—The Fabian Society. By Bernard Shaw. 32 pp., 1d. each; or 9d. per doz.
39.—A Democratic Budget. 16 pp., 1d.; or 9d. per doz.
38.—A Welsh Translation of No. 1. 4 pp., 6 for 1d.; or 1/- per 100.
29.—What to Read. A List of Books for Social Reformers. Contains the best books and blue-books relating to Economics, Socialism, Labor Movements, Poverty, etc. 3rd edn.; revised 1895. Paper cover, 3d. each; or 2/3 per doz.
23.—The Case for an Eight Hours Bill. 16 pp., 1d.; or 9d. per doz.
22.—The Truth about Leasehold Enfranchisement. 6 for 1d.; or 1/- per 100.
19.—What the Farm Laborer Wants. (Revised 1894). 6 for 1d.; or 1/- per 100.
17.—Reform of the Poor Law. By Sidney Webb. 20 pp., 1d.; 9d. per doz.
16.—A Plea for an Eight Hours Bill. 4 pp., 6 for 1d.; 1/- per 100.
15.—English Progress towards Social Democracy. By S. Webb. 1d.; 9d. doz.
14.—The New Reform Bill. 15th thous. 20 pp., 1d.; 9d. per doz.
13.—What Socialism Is. 80th thous. 4 pp., 6 for 1d.; or 1/- per 100.
12.—Practicable Land Nationalization. Revised 1894. 4 pp., 6 for 1d.; 1/- 100.
7.—Capital and Land. A survey of the distribution of property amongst the classes in England. 5th edition; revised 1895. 16 pp., 1d.; or 9d. doz.
5.—Facts for Socialists. A similar survey of the distribution of income and the condition of the people. 7th edn.; revised 1895. 1d.; or 9d. per doz.
1.—Why are the Many Poor? 4 pp., 6 for 1d.; 1/- per 100.

## QUESTION LEAFLETS. Each 4 pp., 6 for 1d.; or 1s. per 100.

These contain Questions for Candidates for the following bodies:—No. 20, Poor Law Guardians (Revised 1894). No. 21, London Vestries (Revised 1894). No. 24, Parliament. No. 25, School Boards (Revised 1894). No. 26, London County Council. No. 27, Town Councils. No. 28, County Councils, Rural (Revised 1895). No. 56, Parish Councils. No. 57, Rural District Councils. No. 59, Urban District Councils.

## FABIAN MUNICIPAL PROGRAM (Tracts Nos. 30 to 37).

1. The Unearned Increment. 2. London's Heritage in the City Guilds. 3. Municipalization of the Gas Supply. 4. Municipal Tramways. 5. London's Water Tribute. 6. Municipalization of the London Docks. 7. The Scandal of London's Markets. 8. A Labor Policy for Public Authorities. Each 4 pp. The eight in a red cover for 1d. (9d. per doz.); or separately 1/- per 100.

FABIAN ELECTION LEAFLETS.—No. 64, How to Lose and How to Win; No. 65, Trade Unionists and Politics; No. 66, A Program for Workers. Each 2 pp., 6d. per 100, or 5s. per 1000.

☞ The Set post free 2/3. Bound in Buckram post free for 3/9.
Boxes for set of Tracts 1s., post free 1s. 3d.

Manifesto of English Socialists. In red cover. 8 pp., 1d. each; or 9d. per doz.